

- **Pa gefnogaeth ariannol sydd ar gael i gwblhau'r cwrs?**

Mae bwrsariaeth ar gael drwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae bwrsariaeth newydd wedi'i gytuno ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau'r cwrs o 2022 ymlaen sy'n darparu cymorth ariannol tuag at ffioedd dysgu a chostau byw. Rhoddir cyfraniad hefyd trwy'r fwrsariaeth tuag at gostau lleoliad megis milltired. Ceir rhagor o fanylion yma:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygiad/cyllid-gradd-gwaith-cymdeithasol>

Mae llawer o fyfyrwyr yn dewis parhau i weithio trwy gydol eu cwrs i gynnal eu hunain yn ariannol, ac mae'r amserlen gryno yn helpu myfyrwyr i wneud hyn.

- **Pwy all wneud cais am y cwrs?**

Mae gofynion mynediad penodol a nodir yma:

<https://www.bangor.ac.uk/courses/postgraduate-taught/social-work-ma#entryrequirements>

Mae gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ystod eang o gefndiroedd a phrofiad. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n teimlo yr hoffent wneud gwahaniaeth a bod yn weithiwr cymdeithasol proffesiynol.

Mae gennym leoedd ar gyfer 21 o fyfyrwyr bob blwyddyn academiaidd.

- **Beth yw'r drefn gyfweld?**

Pan fydd y cais am y cwrs yn bodloni'r holl ofynion, gwahoddir ymgeiswyr am gyfweliad er mwyn asesu ymhellach addasrwydd i ymuno â'r cwrs ar yr adeg hon.

Mae'r panel cyfweld yn cynnwys aelod o dîm addysgu'r brifysgol, aelod staff o bartneriaid yn yr awdurdodau lleol a chynrychiolydd cymunedol. Trefnir dyddiadau cyfweld ar amser sy'n gyfleus i bawb, a bydd yr ymgeisydd yn cael ei gefnogi i baratoi ar gyfer ei gyfweliad. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfweliadau dros Microsoft Teams.

- **Beth yw cyfle neu leoliad dysgu ymarfer?**

Y cyfle dysgu ymarfer yw amser a dreulir ar leoliad o fewn timau gofal cymdeithasol. Mae'n ofynnol bod o leiaf un o'r lleoliadau hyn o fewn lleoliad statudol o fewn Awdurdod Lleol.

Mae'r lleoliadau ar y cwrs yn 100 diwrnod o hyd ym mlwyddyn 1 a blwyddyn 2 ac yn nodweddiadol yn digwydd yn ystod yr ail semester. Mae gan yr awdurdodau lleol gydlynwyr lleoliadau dynodedig sy'n gyfrifol am drefnu lleoliadau i fyfyrwyr, sy'n cael eu cynllunio'n ofalus er mwynparu myfyrwyr â lleoliadau addas. Caiff pob myfyriwr ei 'groesawu' gan bartner awdurdod lleol sy'n darparu cefnogaeth barhaus ar draws y ddwy flynedd.

- **Pa sgiliau neu brofiad fydd yn ddefnyddiol i mi wrth wneud cais i'r cwrs?**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynnu bod gan ymgeiswyr o leiaf 3 mis (cyfwerth ag amser llawn) o brofiad i gael eu derbyn ar y cwrs. Gall hyn gynnwys profiad cyflogedig, gwirfoddol neu bersonol.

Mae Gwaith Cymdeithasol yn broffesiwn sy'n seiliedig ar berthynas ac felly bydd unrhyw sgiliau sy'n cefnogi hyn yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn gwneud cais. Mae sgiliau cyfathrebu, y gallu i ddangos empathi, agwedd anfeirniadol, dealltwriaeth o ormes ac anghydraddoldeb yn rhai o'r ffactorau allweddol sy'n cael eu trafod a'u datblygu yn ystod y cwrs.

- **Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi tra'n astudio ym Mangor?**

Neilltuir tiwtor personol i bob myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor. Ar y cwrs gwaith cymdeithasol bydd y tiwtor personol yn aelod o dîm addysgu MA Gwaith Cymdeithasol.

Gan fod uchafswm o 21 o fyfyrwyr yn cael eu derbyn bob blwyddyn, mae'r cyfle i ddatblygu rhwydweithiau cefnogaeth cymheiriaid o fewn y cwrs yn gryf.

Mae Prifysgol Bangor yn rhoi pwyslais mawr ar ofalu am ein myfyrwyr a'u cefnogi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://www.bangor.ac.uk/student-life/support>

- **Sut caiff y cwrs ei gyflwyno?**

Yn seiliedig ar adborth gan fyfyrwyr presennol a blaenorol, mae'r cwrs gwaith cymdeithasol yn defnyddio dull dysgu cyfunol mewn perthynas ag addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu bod rhywfaint o addysgu'n digwydd wyneb yn wyneb a rhywfaint o addysgu'n digwydd ar-lein. Adolygir hwn yn flynyddol yn unol â'r gofynion a'r arweiniad a roddir gan y brifysgol.

Cynhelir elfen dysgu ymarfer y cwrs yn y gweithle. Mae gan bob awdurdod lleol ganllawiau unigol ar gyfer gweithio mewn swyddfa neu weithio hybrid.